S4C Cyw

Canllawiau Brand

Cynnwys

1. Cyw
2. Nod y brand
3. Elfennau'r brand
4. Safbwynt ymarferol

Mae Cyw yn unigryw. Cyw yw'r unig wasanaeth Cymraeg i blant dan oed ysgol, ac mae S4C wedi ymrwymo i ddarparu rhaglenni gwreiddiol o safon uchel i blant ifanc hyd at chwech oed. Mae cymysgedd llawn dychymyg o gomisiynau newydd, rhaglenni wedi'u cyd-gynhyrchu a rhaglenni a brynir i mewn, ynghyd â brand Cyw sydd wedi hen ennill ei blwyf, rhyngweithio a chyflwyno byw sy'n darparu gwasanaeth bywiog a chystadleuol.

Mae Cyw yn frand sydd wedi ennill gwobrau yn y diwydiant ac sy'n darlledu dros 35 awr o raglenni yr wythnos ar S4C. Mae Cyw ar gael ar hyd a lled y DU, ar setiau teledu daearol, lloeren a chebl, a gellir ei wylio ar-lein hefyd drwy wasanaeth ar alw S4C, yn ogystal â BBC iPlayer. Gellir cael is-deitlau Saesneg gyda'r rhan fwyaf o raglenni.

Cynigir cynnwys digidol o safon uchel hefyd; mae gwefan unigryw Cyw - s4c.cymru/cyw yn wefan ddwyieithog ddeniadol sy'n cynnwys gemau, caneuon, straeon a gweithgareddau i blant, yn ogystal â gwybodaeth i rieni. Mae ap Cyw, sy'n cynnwys straeon a chaneuon, wedi bod yn llwyddiant ysgubol, ac mae e-lyfrau, gemau i'w chwarae gyda'r rhaglenni, gweithgareddau ac apiau addysgol hefyd ar gael.

Nid dim ond brand ar gyfer y cyfryngau yw Cyw; mae hefyd yn cyfrannu at fywyd diwylliannol plant yng Nghymru a thu hwnt. Mae Cyw yn helpu plant i glywed Cymraeg adref ac yn datblygu eu sgiliau iaith. Er mwyn helpu i gynnwys rhieni, mae'r ffrwd Twitter @tiaficyw yn cynnig cyfleithiad anffurfiol. Mae'r gwasanaeth hwn wedi mynd o nerth i nerth. Erbyn hyn, cynigir rhaglenni dogfen byr, ffeiliau sain a gwefan i rieni sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg.

Mae S4C yn buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni plant gwreiddiol yn y DU. Mae Cyw yn frand gwirioneddol aml-gyfrwng a chanddo gynnwys digidol cyffrous i blant dan oed ysgol sydd eisiau Chwarae, Chwerthin, a Dysgu.

2. Nod y brand

ein hamcan

Darparu cynnwys aml-lwyfan o ansawdd uchel yn Gymraeg i blant dan oed ysgol. Bydd y cynnwys yn eu haddysgu a'u diddanu mewn ffordd hwyliog a chyfeillgar.

ein gwerthoedd craidd

Bod yn ddifyr, yn gyffrous, yn ddibynadwy ac yn gefnogol.

ein personoliaeth

Bod yn hwyliog, yn hapus, ac yn ddiniwed.

ein neges

Mae ein neges yn cyfleu'r profiadau rydym yn gobeithio y bydd ein gwylwyr yn eu mwynhau wrth wylio ein rhaglenni.

Chwarae, Chwerthin, Dysgu.





3. Elfennau'r brand

Y logo a ffefrir

S4C Cyw

Dyma'r logo sy'n cael ei ffafrio. Pan gaiff y logo ei osod ar gefndir lliw, dylai fod yn wyn bob amser.

Logo du a gwyn

S4C Cyw

Dylid defnyddio'r fersiwn du a gwyn pan nad yw'n bosib defnyddio'r fersiynau eraill sy'n cael eu ffafrio h.y. gyda thasg argraffu un lliw.

Logo lliw

S4C Cyw

Dylid defnyddio'r fersiwn lliw pan nad yw'n bosib defnyddio'r fersiwn sy'n cael ei ffafrio h.y. ar gefndir gwyn.



Lleoliad y logo

Dylai'r logo gael ei osod yn y gornel chwith uchaf bob amser. S4C yw'r cyd-destun a Cyw yw'r cynnwys sydd bob amser yn arwain at beth bynnag sy'n dilyn. Ar adegau pan na fydd hyn yn bosib, dylid gofyn am ganiatâd i ddefnyddio opsiwn arall.

Lle gwag

Mae'r lle gwag yn cyfateb i led logo S4C.
Peidiwch â gosod unrhyw beth yma.



Maint lleiaf

Gall uchder y logo fod unrhyw faint dros 5mm.

S4C Cyw 5mm

Dangos manylion y rhaglen

Rhaid dangos manylion darlledu'r rhaglen yn y siâp a nodir isod. Daw hwn o'r goeden afalau ym myd Cyw. Mae modd amrywio lliw'r siâp gan ddefnyddio'r lliwiau ym mhalet Cyw. Hefyd, mae modd cylchdroi'r siâp a'i ymestyn dros ymylon deunyddiau a gaiff eu hargraffu.

Cyw

7.00 a 3.00
Llun - Gwener
Monday - Friday

6.00
Sadwrn - Sul
Saturday - Sunday

s4c.co.uk/**cyw**

Enghreifftiau o liwiau

CMYK
99M
RGB
230 0 127
Pantone
226

CMYK
71C 4M 7Y
RGB
16 166 217
Pantone
306

CMYK
35C 100Y 4K
RGB
166 211 16
Pantone
376



Camddefnyddio

Efallai ei fod yn edrych yn syml, ond mae'r canllawiau o ran bylchau, safle ac edrychiad cyffredinol y logo wedi'u cynllunio'n ofalus. Mae'n hollbwysig bod y logo yn aros yn gyson. Ni ddylid camddehongli, addasu nac ychwanegu unrhyw beth at y logo. Peidiwch â'i ail-lunio, ei addasu na'i newid mewn unrhyw ffordd. Dim ond o'r gwaith celf swyddogol a ddarperir y dylid ei atgynhyrchu.

1. Peidiwch ag ychwanegu cysgodion.
2. Peidiwch ag ymestyn y logo.
3. Peidiwch ag ychwanegu beflau neu strociau.
4. Peidiwch â gosod y logo yn rhy agos at lun cymeriad.
5. Peidiwch â thorri o gwmpas delwedd.
6. Peidiwch â gosod y logo dros ddelwedd.

1. S4C Cyw

2. S4C Cyw

3. S4C Cyw

4. S4C Cyw

5. S4C Cyw

6. S4C Cyw

Ffontiau

Y ffont cysefin ar gyfer Cyw yw S4C Sans a dylid defnyddio'r ffont hwnnw ar draws yr holl gyfryngau. Defnyddiwch ffont trwm ar gyfer y Gymraeg a ffont rheolaidd ar gyfer y Saesneg.



S4C Light

abcchddefffgnghijlllmnopphrrhsthuwyABCCH
DDDEFFFGNGHIJLLLMNOPPHRRHSTTHUWYÆŒ&
0123456789*#@+‹=›’”%’a3$ƒ¥¢,.:;…‘’“”«»‹›!?¿i(/)[\]
{|}®©TMÄÅÂÁÃÀÇÉÊËÈÍÎÏÌÑØÓÔÒÖÕÜÚÛÙŴŸŶáàâ
äãåçéèêëíîïìñøóòôöõúùûüŵÿŷ†‡§oı`~^^–––_

S4C Regular

abcchdddefffgnghijlllmnopphrhsthuwyABCCHD
DDEFFGNGHJLLLMNOPPHRHSTHUWYÆŒ&0123456
789*#@+‹=›’”%’a3$ƒ¥¢,.:;…‘’“”«»‹›!?¿i(/)[\]{|}®©TM
ÄÅÂÁÃÀÇÉÊËÈÍÎÏÌÑØÓÔÒÖÕÜÚÛÙŴŸŶáàâäãåçé
èêëíîïìñøóòôöõúùûüŵÿŷ†‡§oı`~^^–––_

S4C Meduim

abcchdddefffgnghijlllmnopphrhsthuwyABCCH
DDDEFFFGNGHIJLLMNOPPHRHSTHUWYÆŒ&012
3456789*#@+‹=›’”%’a3$ƒ¥¢,.:;…‘’“”«»‹›!?¿i(/)[\]
{|}®©TMÄÅÂÁÃÀÇÉÊËÈÍÎÏÌÑØÓÔÒÖÕÜÚÛÙŴŸŶáàâ
äãåçéèêëíîïìñøóòôöõúùûüŵÿŷ†‡§oı`~^^–––_

S4C Bold

abcchdddefffgnghijlllmnopphrhsthuwyABCCH
DDDEFFFGNGHIJLLLMNOPPHRHSTHUWYÆŒ&012
3456789*#@+‹=›’”%’a3$ƒ¥¢,.:;…‘’“”«»‹›!?¿i(/)[\]
{|}®©TMÄÅÂÁÃÀÇÉÊËÈÍÎÏÌÑØÓÔÒÖÕÜÚÛÙŴŸŶáà
âäãåçéèêëíîïìñøóòôöõúùûüŵÿŷ†‡§oı`~^^–––_

Cyw a'i ffrindiau



Perthnasau

Mae perthynas rhwng maint yr holl gymeriadau â'i gilydd. Mae modd llwytho'r canllaw maint hwn i lawr.



Perthynas o ran cysgodion

Mae gan bob cymeriad berthynas â'i gysgod. Dim ond ar gefndir lliw y caiff y cysgod ei ddefnyddio.

Cyw

Mae Cyw yn aderyn crwn, ciwt gyda chrib goch esmwyth ar dop ei phen, pig melyn a cheg oren, tagelli coch llachar a brychni bob ochr i'w phig. Mae gan Cyw lygaid llachar, cyfeillgar gydag irisau du a chanhwyllau llygaid gwyn. Mae ganddi adenydd bychain gwynion sy'n fflapio, ond nid ydynt yn gadael iddi hedfan eto.

Pan fydd ar gefndir gwyn, amlinell las sydd gan Cyw.





Lliwiau Cyw



Lliwiau Cyw

Caiff llais Cyw ei greu drwy roi "gwichiwr" tegan mewn cas plastig pwrpasol, ei gwneud yn bosibl ei chwarae fel offeryn chwyth. Caiff gwahanol dechnegau eu defnyddio i amrywio llais Cyw, o nodau legato hir i frawddegau staccato byr (nodau byr, wedi'u gwahanu), er mwyn dynwared sgwrs.

Hefyd, mae modd newid rhywfaint ar y traw drwy chwythu yn ysgafn neu'n gryf, gan greu amrywiaeth o emosiynau (trist, hapus, cynhyrfus, siomedig).



Symudiad

Mae nodweddion Cyw yn ei gwneud yn debycach i bobl nag unrhyw un o'r anifeiliaid eraill. Mae bob amser yn gwenu ac yn ddymunol, a chaiff ei bochau bach tew, gwyn eu defnyddio i dynnu sylw at ei gwên fawr.

Pan fydd yn chwifio ei hadenydd neu'n defnyddio aden i gyrraedd eitemau, bydd corff Cyw yn symud o ochr i ochr er mwyn gorliwio symudiadau ei braich.



Llew

Mae Llew yn anwesol ac yn chwareus ac mae ganddo wyneb babi. Mae ei gorff a'i goesau yn oren ac mae ganddo fwng euraidd mawr. Mae brest Llew yn wyn, ond mae'n newid i felyn golau pan gaiff ei osod ar gefndir gwyn. Mae ganddo lygaid melyn, mawr, gydag irisau hirgrwn a chanhwyllau llygaid triongl, bach. Mae ganddo drwyn pinc ciwt a chwrl oren ar ei bengliniau.



Lliwiau Llew

CMYK
50M 100Y
RGB
244 148 0
Pantone
152

CMYK
75M 100Y
RGB
233 93 15
Pantone
173

CMYK
10M 100Y
RGB
255 221 0
Pantone
108

CMYK
50Y
RGB
255 237 151
Pantone
100

CMYK
100M 10Y
RGB
225 0 122
Pantone
226

CMYK
100K
RGB
16 16 16
Pantone
Black

Sŵn Y Cymeriad

Llais y cyfansoddwr
yw llais Llew.

Yna, defnyddir llawer o effeithiau sain ar ffurf ategion yn y rhaglen a gaiff ei recordio er mwyn cuddio'r ffaith mai dyn sy'n gyfrifol am greu'r sŵn, ac i animeiddio'r llais.

Unwaith eto, caiff traw a chyfuniad o nodau stacato a legato eu defnyddio er mwyn dynwared sgwrs.



Symudiad

Mae Llew yn defnyddio ei lygaid mawr yn effeithiol iawn, gan wylio popeth sy'n digwydd.

Fe'i gwelir yn aml yn arsylwi, ac yna'n cerdded yn llyfn ac yn effeithlon, fel cath.

Plwmp

Mae Plwmp yn llwyd gydag arlliw goleuach ar ei frest a'i glustiau, ac mae'n edrych yn gyfeillgar. Mae ganddo gwrl llwyd ar ei bengliniau. Bydd Deryn yn eistedd ar ei ben yn aml, ac maen nhw'n mynd i bob man gyda'i gilydd.







Lliwiau Plwmp

Sŵn y cymeriad

Y cyfansoddwr sy'n gyfrifol am greu llais Plwmp, gan ddefnyddio ei lais ei hun i greu sŵn eliffant utganol. Defnyddir llawer o effeithiau sain ar ffurf ategion yn y rhaglen a gaiff ei recordio er mwyn cuddio'r ffaith mai dyn sy'n gyfrifol am greu'r sŵn, ac i animeiddio'r llais.

Unwaith eto, caiff traw a chyfuniad o nodau stacato a legato eu defnyddio er mwyn dynwared sgwrs.



Symudiad

Er ei fod yn fwy na'r gweddill, mae Plwmp yn dal i lwyddo i ddal i fyny gyda nhw. Pan fydd yn rhedeg, fe welir ei fod gam neu ddau y tu ôl i weddill y cymeriadau.

Fodd bynnag, pan fydd Plwmp yn symud, bydd ei gamau yn drwm ac hyderus.



Deryn

Aderyn bach crwn a phinc gydag adenydd porffor yw Deryn.

Bydd Deryn yn aml yn sefyll ar ben Plwmp ac nid oes ganddi gysgod.





Lliwiau Deryn



Sŵn y cymeriad

Defnyddir sampl o sŵn picolo yn chwarae tril i greu llais Deryn. Er mwyn amrywio llais y cymeriad, caiff y traw ei newid, a chaiff proses "plygu traw" ei defnyddio hefyd i greu brawddegau byr sy'n dynwared goslef sgwrs.

Defnyddir un frawddeg legato (esmwyth), hir i ddynwared symudiad Deryn wrth iddi hedfan. Bydd y sŵn yn ymestyn o un ochr y sbectrwm stereo i'r llall, gan ddilyn yr elfen weledol ar y sgrin.



Symudiad

Nid yw Deryn byth yn bell oddi wrth Plwmp. Pan bydd ar y llawr, bydd Deryn yn sboncio yn yr unfan ac yn trydar yn hapus.

Pan bydd yn yr awyr, bydd yn hedfan yn gyflym ac yn newid cyfeiriad drwy fynd ar ei phen i lawr.



Jangl

Mae Jangl yn dal, yn urddasol ac yn osgeiddig. Mae'n felyn ac mae ei bol ychydig yn oleuach. Nid oes smotiau ar ei chorff. Mae mwng, cyrn a chlustiau Jangl yn frown, mae ganddi smotyn coch ar ei boch a chwrl coch ar ei phengliniau.





Lliwiau Jangl

CMYK
15M 90Y
RGB
225 213 2
Pantone
129

CMYK
50M 100Y
RGB
242 148 0
Pantone
152

CMYK
22M 93Y
RGB
254 202 7
Pantone
123

CMYK
40C 80M 80Y 50K
RGB
99 46 30
Pantone
4625

CMYK
50Y
RGB
255 237 151
Pantone
123

CMYK
100M 100Y
RGB
226 0 26
Pantone
032

CMYK
100K
RGB
16 16 16
Pantone
Black

Sŵn y cymeriad

Defnyddir sampl o sŵn obo yn chwarae nodau stacato i greu llais Jangl. Yn yr un modd â'r dull a ddefnyddir i greu sŵn Deryn, caiff y traw ei newid a defnyddir proses "plygu'r sain."

Symudiad

Mae Jangl yn symud ei chlustiau, mae ei gwddf hir yn siglo o ochr i ochr pan bydd yn rhedeg, ac mae ei chynffon yn sboncio'n gyflym.

Mae Jangl yn gymeriad hapus ac mae ei phen bob amser yn y cymylau.

Bolgi

Mae Bolgi yn gi bywiog sydd bob amser yn barod am hwyl. Mae ei gorff yn oren, ac fel Llew, mae ei frest yn edrych yn llwydwyn ar gefndir gwyn, ond yn wyn ar gefndir lliw. Mae gan Bolgi ddarnau brown o amgylch ei lygaid a marc gwyn ar ei dalcen, ac mae ei dafod bob amser yn hongian o'i geg. Mae clustiau a chynffon hir Bolgi yn pwyntio am i fyny ac mae ganddo gwrl oren ar ei bengliniau.





Lliwiau Bolgi

CMYK
50M 100Y
RGB
243 146 0
Pantone
152

CMYK
60M 90Y
RGB
239 125 37
Pantone
1582

CMYK
15C 60M 90Y
RGB
212 129 40
Pantone
1525

CMYK
50Y
RGB
255 237 151
Pantone
123

CMYK
40C 80M 80Y 50K
RGB
99 46 30
Pantone
4625

CMYK
25C 60M 90Y 10K
RGB
182 112 41
Pantone
1605

CMYK
100M 10Y
RGB
225 0 122
Pantone
226

CMYK
100K
RGB
16 16 16
Pantone
Black

Sŵn y cymeriad

Y cyfansoddwr sy'n gyfrifol am greu llais Bolgi hefyd.

Yna defnyddir effeithiau sain ar ffurf ategion yn y rhaglen a gaiff ei recordio er mwyn cuddio'r ffaith mai dyn sy'n gyfrifol am greu'r sŵn, ac i animeiddio'r llais.

Unwaith eto, caiff traw a chyfuniad o nodau staccato a legato eu defnyddio er mwyn dynwared sgwrs.

Symudiad

Mae cynffon Bolgi yn siglo fel metronom. Mae'n symud yn fwy siarp ac yn gyflymach na gweddill y cymeriadau ac mae'n gymeriad ddireidus.



Byd Cyw
Cefndir sylfaenol

CMYK
35C 100Y 4K
RGB
166 211 16
Pantone
376

Yr awyr a'r glaswellt

Wrth greu cefndir sylfaenol ar gyfer deunydd argraffu neu ar-sgrin, dylai ffin y glaswellt fod o dan hanner bob amser. Dylai'r lliw gwyrdd/glas fod yn gyson ym mhob tymor.

CMYK
75C 30M 90Y 10K
RGB
72 127 59
Pantone
364

Cymylau

Mae'r cymylau bob amser yn hirsgwar, ac nid ydynt byth yn cyffwrdd â'i gilydd. Pryd bynnag y bo modd, dylent fynd dros yr ymylon.

CMYK
40C 77M 79Y 52K
RGB
101 50 35
Pantone
477

Y mynyddoedd/bryniau

Fe welir mynyddoedd gydag eira ar y copaon ym myd Cyw drwy'r amser, boed hi'n haf neu'n aeaf. Defnyddir bryniau llai hefyd. Ystyriwch y berthynas rhwng maint yr holl ddelweddau wrth ddefnyddio'r rhain.

CMYK
71C 4M 7Y
RGB
16 166 217
Pantone
306

Y coed

Mae dau fersiwn generig o goed i'w defnyddio ym myd Cyw. Wrth ddefnyddio'r coed, meddyliwch am bersbectif, h.y. bydd y goeden yn llai pan fydd y cymeriadau'n bellach oddi wrthi. Cofiwch fod gan bob coeden gysgod.

Tymhorau

Gwanwyn

Dylai lliw'r awyr fod yn gyson boed hi'n wanwyn, yn haf, yn hydref neu'n aeaf.

Haf

Yn yr haf, mae modd defnyddio'r cefndir traeth yn ogystal â'r awyr a'r glaswellt generig.



Hydref

Yn yr hydref mae'r coed a'r dail yn troi'n frown ac mae'r cefndir yn aros yn gyson.

Gaeaf

Yn y gaeaf mae'r ddaear bob amser yn las golau a defnyddir coed gydag eira arnynt hefyd.

Arddull y darluniau

Er mwyn sicrhau dilyniant, mae'n rhaid i'r arddull weledol fod yn gyson. Ni ddylid defnyddio elfennau Clipart. Mae ffolder gynhwysfawr o asedau Cyw ar gael.



4. Safbwynt ymarferol

Ar yr awyr

Dangosir enghreifftiau o'r ffyrdd y gellir defnyddio brand gwasanaeth Cyw isod.

Baner is-deitlau wedi'i hanimeiddio

Neges gwall

Manylion darlledu

Logo wedi'i animeiddio

Hysbyseb byr

Hysbyseb byr

Dangosir enghreifftiau o ddeunyddiau hyrwyddo isod.
Mae'n bosib y bydd y cyflwynwyr yn rhyngweithio â'r cymeriadau sydd wedi'u hanimeiddio ym myd Cyw.

Posteri a chardiau post yn hyrwyddo gwasanaeth Cyw.

Hysbysebion.

Poster yn hyrwyddo rhaglen sydd wedi'i chynnwys fel rhan o wasanaeth Cyw.

Cyfryngau awyr agored – ochrau bysiau

Digidol

Dylid sicrhau bod y brand yn cael ei gyfleu'n briodol ar draws yr holl gynnwys digidol.

Nwyddau marchnata

Dylid sicrhau bod yr holl nwyddau marchnata yn targedu'r ystod oedran cywir.

Ni ddylai'r cymeriadau wneud pethau anaddas ar gyfer yr oedran targed.



Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag:

Adran Cyfathrebu S4C
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
Cymru
CF14 5DU

Rhif ffôn +44 (0)29 2074 1271

s4c.cymru/cyw